# Cynllun ar gyfer Gweithdy Rhagarweiniol 1-awr ar Ddeiseb Heddwch y Menywod

**Lleoliad:** Ystafell ddosbarth / ystafell fawr

**Oedran:** Blynyddoedd 5 – 6 / Uwchradd

**Trefn:** Hyblyg – fel y gall disgyblion weithio mewn grwpiau llai

| Cynnwys | Disgrifiad | Amserau | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| **Amcanion y gweithdy** | Cyflwynwch amcanion y gweithdy:<br>• Rhannu stori arbennig a ddigwyddodd 100 mlynedd yn ôl.<br>• Ystyried y stori a'r hyn mae yn ei olygu i ni heddiw<br>• Dechrau cynllunio un peth y medrwn ni ei wneud dros heddwch<br>• Dysgu sut medrwn ymgymryd ag ymchwil lleol | 5 munud | Sleid Ppt 2 |
| **Darganfod y stori** | Dechreuwch drwy ystyried y cwestiwn - Pam mae heddwch yn bwysig? Trafodwch beth efallai na fydd plant yn gallu ei wneud pan fydd rhyfel yn dig-wydd – e.e. mynd i'r ysgol, cael gofal iechyd, cael lle diogel i fyw, bod gyda'u teuluoedd……<br>Nawr dywedwch stori Deiseb Heddwch y Merched, gan ddefnyddio'r sgript a'r sleidiau. Gallwch hefyd ddefnyddio'r fideo You Tube hwn: https://youtu.be/0NbftPgPjCM?si=XI58fCnHMsDew8jk | 10 munud | Sleid Ppt 3<br><br>Sleidiau Ppt 4 – 7 + Sgript |
| **Myfyrio** | Mewn grwpiau, trafodwch y cwestiynau canlynol:<br>• Beth wnaeth yr argraff fwyaf arnoch chi am y stori?<br>• Beth oedd yn rhaid i'r menywod ei wneud i gynllunio a rhedeg prosiect mor enfawr?<br>• Beth allai fod wedi bod yn anodd iddyn nhw a pham?<br><br>Gadewch i'r grwpiau adrodd yn ôl a rhannu syniadau. | 10 munud | Cwestiynau ar Sleid Ppt 8<br><br>Taflenni gyda chwestiynau<br>Siart troi a peniau i ddisgyblion gofnodi eu syniadau |

| Cynnwys | Disgrifiad | Amserau | Adnoddau |
| --- | --- | --- | --- |
| **Creu ymgyrch heddwch – ddoe a heddiw** | Rhowch ychydig mwy o gefndir i'r disgyblion am y menywod a drefnodd y ddeiseb - pwy oedden nhw a beth roedden nhw'n ceisio ei gyflawni. Dywedwch fod y menywod wedi casglu 390, 296 o lofnodion dros 6 mis - sef 30% o holl fenywod Cymru ar y pryd!<br><br>Gofynnwch i'r plant ystyried cwestiynau o dan y penawdau canlynol:<br>• **Cael pobl at ei gilydd:** Sut wnaethon nhw berswadio pobl i gydweithio ac i weithredu?<br>• **Dulliau**: Pa ddulliau wnaethon nhw'n eu defnyddio?<br>• **Cefnogaeth:** Pa gefnogaeth oedd ei hangen arnynt?<br>• **Cyhoeddusrwydd:** Sut ydych chi'n meddwl eu bod nhw wedi codi ymwybyddiaeth o'u hymgyrch?<br><br>**Meddwl – paru – rhannu:**<br>Gofynnwch i'r disgyblion rannu pa ddulliau y byddent yn eu defnyddio heddiw pe baent yn trefnu ymgyrch a sut y byddent yn dweud wrth eraill beth yr oeddent yn ei wneud a'u hannog i gymryd rhan.<br>Rhannwch syniadau wedyn edrychwch ar Sleid 10. | 10 munud | Sleid Ppt 9<br><br>Sleid Ppt 10 |
| **Cynllunio'ch Prosiect** | Gofynnwch iddyn nhw gydweithio i feddwl am brosiect yr hoffent ei wneud. Rhowch rai enghreifftiau yn gyntaf – (ar y sleidiau)<br>Gallwch hefyd sôn am ymchwilio ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru am enwau lleol (i ddarganfod pwy arwyddodd y ddeiseb yn eu hardal)<br><br>Mae'r cyfranogwyr yn gweithio mewn grwpiau i gynllunio eu prosiect. Dylen nhw geisio penderfynu beth maen nhw eisiau ei wneud, **beth hoffen nhw ei gyflawni a phwy sydd angen iddyn nhw ei gynnwys - hefyd pa ddulliau y byddan nhw'n eu defnyddio**. Gallant gynrychioli hyn ar eu siart troi / taflen ym mha ffordd bynnag y maent yn dymuno. | 10 munud | Sleidiau Ppt 11 - 13<br><br>Siart troi a pheniau<br><br>Taflenni cynllunio prosiect neu siart droi |
| **Gwerthuso** | Dyma rai cwestiynau i helpu'r dysgwyr i adborthi ar y sesiwn:<br>• Beth oedden nhw yn ei feddwl o'r stori? Beth wnaeth yr argraff fwyaf arnynt?<br>• A ddysgon **nhw** rywbeth newydd?<br>• Beth hoffen nhw ei wneud i greu newid yn eu hysgol /cymuned? | | |